

# Clwb y Llygaid Bach

# Adar Ysglyfaethus


Prosiect Llên Natur Cymdeithas Edward Llwyd




**1. Barcud coch**
Aeth yn brin ar un cyfnod gydag ond ychydig barau yng Nghymru (yn ardal Pumlumon, Sir Aberteifi) oherwydd yr hela trwm ac i wenwyn fynd i'r gadwyn fwyd. Mae'n cynyddu bellach. Yn frowngoch gyda phen gwelw a darn gwyn o dan yr adain. Yr adenydd yn hir a chul a’r gynffon yn fforchog. Ei hoff fwyd yw mamaliaid bach, cwningod, defaid marw, cywion brain a gwylanod.




**2. Bwncath**
Mae tua 51–57 cm o hyd a rhwng 110 a 130 cm ar draws yr adenydd. Fel rheol yn nythu mewn coeden, ond yn hela dros dir agored. Oherwydd hyn, mae'n hoffi tiriogaeth lle mae cymysgedd o goed a chaeau. Mae'n bwyta mamaliaid bach yn bennaf, yn cynnwys llygod, llygod mawr a chwningod, ond mae hefyd yn bwyta anifeiliad wedi marw, cywion adar a phryfed genwair. Gellir gweld pâr, neu ddau bâr o fwncathod yn troelli yn yr awyr uwchben eu tiriogaeth yn y ganwyn, ac yn tynnu sylw trwy eu galwadau *piii-âw*, nid annhebyg i gathod.



**3. Cudyll coch**
Aderyn gweddol fychan, rhwng 34 a 38 cm o hyd a 70–80 cm ar draws yr adenydd. Y rhan fwyaf o'r plu yn frown gyda smotiau du, ac mae gan y ceiliog ben a chynffon llwydlas. Wrth hedfan, gellir ei adnabod o'r gynffon hir, adenydd hir a'r ffaith ei fod yn aml yn medru aros yn ei unfan yn yr awyr wrth hela. Anifeiliaid bychan, yn enwedig gwahanol fathau o lygod, yw'r prif fwyd, ond mae hefyd yn bwyta adar bychain, llyffantod a phryfed. Wrth hela yn aml bydd yn aros yn ei unfan yn yr awyr i wylio am symudiad cyn plymio i'r ddaear. Yn nythu mewn coed, yn aml yn defnyddio hen nythod brain, ar greigiau, neu ar ben adeiladau.



**4. Gwalch glas**
Mae'n nythu mewn coed, ac yn hela adar bychain yn bennaf. Gall symud yn gyflym trwy'r coed i ddal adar cyn iddynt wybod ei fod yno. Ei gynffon yn hir ac adenydd gweddol fyr a llydan. Mae'r ceiliog yn llwydlas ar ei gefn a llinellau coch ar y fron, tra mae'r iâr yn fwy brown. Y ceiliog sydd rhwng 29 a 34 cm o hyd a 59–64 cm ar draws yr adenydd ac yn llai na’r iâr. Mae'n aderyn cyffredin yma sy’n cynyddu erbyn hyn ac i'w weld ymhobman heblaw yn y mynyddoedd.



**5. Gwalch y pysgod**
Mae’n byw yn bennaf ar bysgod. Mae ganddo ddosbarthiad eang iawn trwy'r byd, ac yn un o'r ychydig adar sydd i'w cael ar bob cyfandir heblaw yr Antarctig. Mae'n 60 cm mewn hyd a 180 cm o adain i adain. Brown ydy rhan uchaf ei gorff a'r rhan isaf yn wyn; mae ymylon ei lygaid a'i esgyll yn blu du. Gall blymio i'r dŵr ar gyflymder uchel i ddal ei ysglyfaeth gyda'i grafangau. Mae'n nythu gerllaw llynnoedd ac afonydd fel rheol. Diflannodd o wledydd Prydain yn 1916 ond dychwelodd y gwalch i nythu yn y 1950au.



**6. Hebog Tramor**
Mae'n aderyn cyffredin yng Nghymru, fel rheol yn nythu yn y mynyddoedd, ond gall hefyd nythu ar adeiladau uchel. Bydd yn treulio'r gaeaf o gwmpas glannau'r môr. Mae’r iâr yn fwy na'r ceiliog fel rheol. Yn aml clywir yr alwad "kek-kek-kek-kek" pan fo rhywun yn dynesu at y nyth. Ei fwyd yw adar maint colomen (colomennod dof, ysguthanod, grugieir, adar môr). Bydd yn plymio arnynt oddi uchod yn ddiarwybod iddynt ac ystyrir yn un o'r adar sy'n medru hedfan gyflymaf. Dywedir y gall gyrraedd 200 milltir yr awr pan fo'n disgyn o uchder i geisio dal aderyn.

| | Pryd? | Ble? | Pwynt |
|---|---|---|---|
| 1 | __________ | ______________________ | 30 |
| 2 | __________ | ______________________ | 15 |
| 3 | _________ | ______________________ | 30 |

| | Pryd? | Ble? | Pwynt |
|---|---|---|---|
| 4 | __________ | ______________________ | 20 |
| 5 | __________ | _____________________ | 40 |
| 6 | __________ | _____________________ | 35 |